



Arloesi yn y maes cynllunio iaith ers 1993

Leading the way in language
planning since 1993



Rheolwr Prosiectau ac Ymchwil

Disgrifiad Swydd

Teitl:	Rheolwr Prosiectau ac Ymchwil
Cyflog:	£26,823 - £34,906 (Graddfa D) i'w adolygu
Buddion:	Cynigir cynllun pensiwn rhan-ddeiliaid, cynllun diogelu cyflog rhag salwch a chostau teithio safonol i staff craidd
Telerau:	Cytundeb parhaol - yn ddibynol ar gyllid a pherfformiad. Mae IAITH wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal mewn cyflogaeth.
Oriau gwaith:	Gweithir wythnos waith o 37.5 awr. Mae oriau gwaith y cwmni wedi ei seilio ar wythnos waith Llun-Gwener ac ar ddiwrnod gwaith 9.00 a.m. - 5.00p.m.. Fodd bynnag, caniateir hyblygrwydd yn y patrwm gwaith i gyfateb i anghenion y gwaith a ddeilydd y swydd. Bydd disgwyl i'r swyddog weithio oddi allan i'r patrwm arferol o bryd i'w gilydd. Ystyrir penodi rheolwr llawn amser neu ran amser. Gellir hefyd ystyried trefniadau rhannu'r swydd neu penodiad cyfnod sabothol.
Lleoliad swyddfa:	Mae IAITH yn gyflogwr hyblyg. Gellir lleoli'r swydd yn swyddfa'r cwmni, yng Nghastellnewydd Emlyn. Caniateir hefyd gweithio o adref trwy drefniant. O ganlyniad, croesawn geisiadau o unrhyw le yng Nghymru neu tu hwnt i Gymru. Mae trefniadau gweithio o bell yn eu lle gan y cwmni a gellir cadarnhau'r trefniadau hynny yn dilyn penodiad i'r swydd.
Atebol i:	Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni.
Amcan y swydd:	Prif ddiben y swydd yw cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a rheoli gweithgareddau a phrosiectau ymchwil a datblygu IAITH.

Dyletswyddau a chyfleoedd

Prosiectau Ymchwil a Datblygu:

- datblygu, gweithredu a rheoli prosiectau ymchwil a datblygu'r cwmni,
- meithrin perthynas gyda sefydliadau priodol a darpar gleientiaid,
- canfod cyfleoedd addas ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu,
- cynllunio ceisiadau am brosiectau ymchwil a datblygu newydd ar y cyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a chyfarwyddwyr eraill y cwmni,
- rheoli, cydlynu a chyfrannu i waith timoedd prosiectau ymchwil a datblygu,
- rheoli cyllidebau prosiectau ymchwil a datblygu,
- llunio adroddiadau ysgrifenedig graenus priodol yn Gymraeg ac yn Saesneg,
- cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn raenus mewn ystod o sefyllfaoedd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Agweddau eraill:

- cefnogi Cyfarwyddwyr a staff eraill y cwmni ar agweddau o'u gwaith,
- cyfrannu i waith strategol a datblygu cyffredinol y cwmni.

Er ei fod yn gwmni nid am elw ac yn elusen, mae IAITH yn gweithredu ar sail gwbl fasnachol. O'r herwydd, disgwylir i'r Rheolwr Prosiectau ac Ymchwil rannu cyfrifoldeb am ennill cytundebau gwaith perthnasol i'r cwmni ar y cyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r cyfarwyddwyr eraill.

Proffil y swyddog

Ystyrir y meini prawf canlynol yn hanfodol (neu'n fanteisiol) ar gyfer y swydd uchod:

Cymwysterau:

- gradd ymchwil uwch mewn pwnc perthnasol (yn fanteisiol)

Sgiliau:

- sgiliau defnyddio rhaglenni data meintiol ac/neu ansoddol,
- cywirdeb manwl mewn Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig a llafar,
- y gallu i weithio trwy gyfrwng iaith / ieithoedd eraill (yn fanteisiol),
- sgiliau rhyngpersonol effeithiol,
- y gallu i weithio a threfnu gwaith yn annibynnol,
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth, cyfathrebu a rhwydweithiau cymdeithasol yn hwylus,
- defnydd car a thrwydded lân.

Gwybodaeth:

- adnabyddiaeth drylwyr o'r maes polisi a chynllunio iaith ynghyd â meysydd perthnasol eraill e.e. newid ymddygiad, addysg, cynllunio cymunedol, datblygu economi

- gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau cyfoes mewn perthynas â datblygu defnydd o'r Gymraeg
- gwybodaeth am ddulliau ymchwil cyfoes a chyfredol

Agweddau:

- brwdfrydedd dros ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg,
- brwdfrydedd dros weithredu cynllunio iaith cymhwysol,
- y gallu i weithio'n unigol ac i gydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm.

Profiad:

- profiad o gynnal gwaith ymchwil gwreiddiol/ i gomisiwn,
- profiad o lunio ac ennill ceisiadau grant ymchwil/tendrau (yn fanteisiol)
- profiad o gynnal gwerthusiadau (yn fanteisiol)
- profiad o reoli tîm a rheoli prosiect yn effeithiol
- profiad o weithio mewn prifysgol, corff cyhoeddus neu fudiad gwirfoddol arwyddocaol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol/rhyngwladol,
- profiad o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Cymwyseddau

Dylid ystyried y disgrifiad swydd hwn ochr yn ochr â fframwaith cymwyseddau IAITH ar y lefel briodol.

Cyflwyno Cais

Gallwch gyflwyno cais trwy yrru CV a llythyr cais sy'n manylu ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd at: post@iaith.cymru

Dylai'r CV fanylu ar:

- fanylion personol,
- manylion addysgol a chymwysterau,
- swydd bresennol,
- swyddi blaenorol a rhesymau dros adael,
- gweithgarwch gwirfoddol perthnasol,
- lefel cyflog presennol,
- pryd y gallwch ddechrau ar y swydd,
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn dau ganolwr.

Dylai'r llythyr cais amlinellu:

- eich rhesymau dros geisio am y swydd
- sut y credwch eich bod yn addas ar gyfer y swydd, ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwyd a allai fod o fantais i chi yn eich cais

Dylai eich cais ein cyrraedd erbyn **12.00 ar ddydd Llun, 8 Awst 2022**.

Gallwch gyflwyno ymholiadau pellach neu drefnu sgwrs pellach drwy ysgrifennu at y Rheolwr Gyfarwyddwr: kathryn.jones@iaith.cymru